**Children and Young People Committee**

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

At yr ymgynghoreion ar y rhestr sydd ynghlwm

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Ionawr 2008

Annwyl Gyfaill

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth i'w ymchwiliad byr i gyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Beth yw cyllidebu ar gyfer plant?**

- Mae cyllidebu ar gyfer plant yn golygu edrych ar yr adnoddau y mae'r Llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yn eu darparu ar gyfer y polisïau, y rhaglenni a'r gwasanaethau sydd o fudd i blant. Mae hefyd yn golygu penderfynu a yw'r adnoddau hyn yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yn ddigonol.

- Mae cyllidebu ar gyfer plant yn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn cael eu gwneud mewn ffordd fwy agored ac amlwg, ac mae'n sicrhau bod y llywodraeth yn fwy atebol am hynny.

- Mae cyllidebu ar gyfer plant yn helpu'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau i fod yn ymwybodol o effaith polisïau ar blant a phobl ifanc.

Ffôn / Tel: 029 2089 8476
Ffacs / Fax: 6090
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail:Helen-mary.jones@wales.gov.uk

## Pam fod cyllidebu ar gyfer plant yn bwysig?

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi argymell yn gyson y dylid dadansoddi cyllidebau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn dangos faint o arian sy'n cael ei wario ar blant, canfod y blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn y ffordd orau bosibl. Byddai gwneud hyn yn sicrhau bod y llywodraethau dan sylw yn cydymffurfio ag Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn ôl Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, ni chynhelir digon o ddadansoddiadau cyson na digon o asesiadau o effeithiau cyllidebau ar hawliau plant. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd canfod faint o arian sy'n cael ei ddyrannu er budd plant drwy'r wladwriaeth (hynny yw, y DU), ac mae'n golygu nad oes modd gwybod a yw'r arian hwn yn gweithredu'r polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar blant mewn modd effeithiol.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio ar gyllidebu ar gyfer plant ac mae'n cydnabod mai dim ond drwy gymryd camau graddol dros nifer y flynyddoedd y gall y Llywodraeth yn genedlaethol a lleol fod yn gwbl agored yn y modd y mae'n gweithredu. Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyllidebu ar gyfer plant, ac mae hwnnw'n dangos i 28% o wariant Llywodraeth y Cynulliad gael ei ddyrannu i blant yn 2006-07, o gymharu â 29% yn 2005-06. Gallwch weld y papur fan hyn:
http://www.assemblywales.org/cyp_3__child_budgeting_submission_from_welsh_assembly_government__e.pdf

## Pam fod y Pwyllgor wedi penderfynu edrych ar gyllidebu ar gyfer plant?

Mae'r ffordd y caiff cyllidebau eu llunio yng Nghymru yn ei gwneud yn anodd canfod faint o arian sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i edrych ar hyn gan ei fod yn credu bod gweithredu'n fwy agored a chreu gwell dealltwriaeth o'r broses o bennu a dyrannu gwariant cyhoeddus yn hanfodol er mwyn monitro sut y mae'r Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth ac mae ganddo ddiddordeb mewn edrych ar y prosesau a'r systemau sydd gennym ar lefel strategol. Y nod yw gweld sut y gellir gwella'r rheini, yn hytrach na dadansoddi cyllidebau cymhleth gwahanol adrannau.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

1. Edrych ar y trefniadau presennol ar gyfer dyrannu a monitro gwariant cyhoeddus ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, a hynny ar lefel genedlaethol a lleol.

2. Canfod cyfanswm yr arian y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wario ar blant a phobl ifanc.

**Sut y gallwch chi helpu – cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae'r broses o bennu cyllidebau a dyrannu adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn un agored ar lefel genedlaethol a/neu leol?

2. Yn eich barn chi, i ba raddau y dylid ystyried plant a phobl ifanc wrth bennu cyllidebau a gwneud penderfyniadau mewn meysydd polisi sydd heb gysylltiad amlwg â hwy, ee trafnidiaeth, tai a chynllunio?

3. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae adrannau'r Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn cydlynu eu gwaith wrth wario arian ar blant a phobl ifanc? A allwch roi enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd neu lle nad yw'n digwydd?

4. A ydych yn credu bod digon o gynllunio ymlaen llaw wrth ddyrannu cyllid er mwyn darparu polisïau a rhaglenni ar gyfer plant a phobl ifanc? Rhowch enghreifftiau.

5. A oes gennych unrhyw enghreifftiau lle cynhelir dadansoddiadau cost a budd ar gyfer polisïau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc (ee asesu costau a manteision ymyriadau neu bolisïau a'u heffeithiau)? Hoffech chi weld hyn yn digwydd yn amlach ac mewn ffordd fwy agored?

6. Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth wleidyddol bwysig yng Nghymru. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae'r cyllidebau sy'n cael eu dyrannu yn adlewyrchu'r flaenoriaeth bwysig hon? I ba raddau y mae'r cyllidebau sy'n cael eu dyrannu a'r gwir wariant yng Nghymru yn helpu pobl dlawd?

7. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu i'r broses o bennu cyllidebau a gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a/neu leol, ac a oes gennych unrhyw enghreifftiau o hyn?

8. Beth fyddech yn ei newid i'w gwneud yn haws monitro'r gwariant ar blant a phobl ifanc?

9. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am gyllidebu ar gyfer plant?

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Rhoddir gwahoddiad i'r rheini sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor erbyn **6 Mawrth 2009.** Mae'r cyfeiriad i'w weld uchod.

Os yw hynny'n bosibl, a fyddech cystal â darparu fersiwn electronig mewn fformat MS Word neu Rich Text, naill ai drwy anfon e-bost i equality.comm@wales.gsi.gov.uk neu drwy anfon disg.

Dechreuwch eich cyflwyniad drwy roi rhywfaint o wybodaeth am eich sefydliad cyn rhoi'ch sylwadau a sôn am eich profiadau mewn perthynas â'r meysydd a nodwyd.

Mae'r pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai a enwir ar y rhestr ddosbarthu amgaeedig (Atodiad 1). Fodd bynnag, **byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi eu cynnwys ac a allai fod diddordeb ganddynt mewn cyfrannu at yr adolygiad.** Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu Gwybodaeth**

*Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r pwyllgor ei thrin fel eiddo'r pwyllgor cyn gynted ag y caiff ei chyflwyno iddo. Bwriad y pwyllgor yw rhoi papurau ysgrifenedig ar ei wefan, ac mae'n bosibl y cânt eu hargraffu gyda'r adroddiad yn dilyn hyn. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n ei hystyried yn ddata personol.*

*Os cyflwynir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd yn flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn ei chyhoeddi.*

*Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol nad yw'n addas i'w datgelu'n gyhoeddus yn eich barn chi, dylech nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a chyflwyno dadl resymol dros hynny. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y pwyllgor a'i ymchwiliad yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-cyp-home.htm

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Atodiad 1**

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Gyllidebu ar gyfer Plant**

**Ymgynghoreion**

ABCD – Access for Black and Minority Ethnic Children and Young People with Disabilities
Achub y Plant Cymru
Adele Baumgardt Consulting
Anabledd Cymru
Awtistiaeth Cymru
British Arm Forces Federation
Bangladeshi Welfare Association
Bangladeshi Women's Group
Barnardos Cymru
Black Association of Women Stepping Out
Comisiynydd Plant Cymru
Community Agency for Social Enquiry
Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-ybont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Cyngor Cymru i'r Deillion
Cyngor Cymru YMCA
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Mwslemaidd Cynmru
Cyngor Pobl Anabl y DU
Cyngor Sir Abertawe
Cyngor Sir Blaenau Gwent
Cyngor Sir Bro Morgannwg
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Gwynedd
Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Dynol
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas y Plant
Cymru Yfory
Cynhalwyr Cymru
Cyswllt Ieuenctid Cymru
Chwarae Cymru
Fforwm Cymru Gyfan o Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu
Grŵp Cyllideb Menywod y DU
Gweithredu dros Blant
Home-Start
Idasa
Iechyd Meddwl Cymru
Llais Ffoaduriaid Cymru
MENCAP Cymru
MEWN Cymru

NASUWT

National Council of YMCA's of Wales
National Society for the Prevention of Cruelty to Children Cymru
National Union of Teachers Cymru
Pakistan Association of Newport & Gwent Welsh Asian Council
Plant yng Nghymru
Polish Welsh Mutual Association
Prifysgol Pacifico
Prifysgol Plymouth
RNIB Cymru
RNID Cymru
Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon
Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru
SCOPE Cymru
Sefydliad Bevan
Shelter Cymru
SNAP Cymru
Stonewall Cymru

Swyddog Cynorthwyol Cyswllt yr Heddlu
Tros Gynnal
Trade Union Congress Cymru
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru
Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
Undeb y Mamau yng Nghymru
UNICEF UK
UNISON Cymru
UNITE
Voices from Care (Cymru)
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Ddraig Ffynci
Y ganolfan ar flaenoriaethau cyllidebau a pholisïau
Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Y Sefydliad Materion Cymreig
Ymddiriedolaeth y Tywysog – Cymru
Youth Cymru
YWCA